

## Gwybodaeth ynglŷn ag ymweld â chwareli'r Mynydd Du

Darllenwch yr wybodaeth ganlynol cyn ymweld â'r chwarel. Cyn ymweld gyda disgyblion, argymhellwn fod athrawon yn ymweld ymlaen llaw er mwyn bod yn gyfarwydd â'r safle. Rydyn ni wedi darparu'r wybodaeth ganlynol er mwyn gwneud athrawon yn ymwybodol o'r peryglon ar y safle ac i roi argymhellion ar sut i leihau'r peryglon hyn. Fodd bynnag, yr ysgol sy'n gyfrifol am gwblhau ei hasesiad risg ei hun, gan roi ystyriaeth i unrhyw risgiau ychwanegol neu anghenion y disgyblion.

Yn ogystal â'r uchod, rydyn ni'n argymhell bod yna o leiaf un swyddog cymorth cyntaf gyda phob grŵp a bod gan y grŵp flwch cymorth cyntaf yn ei feddiant bob amser. Dylai pob ffôn symudol fod wedi'i wefru'n llawn a dylai pob arweinydd fod yn ymwybodol o rifau argyfwng. Does dim toiledau ar y safle, ond mae yna rai yng Nghanolfan y Mynydd Du (dylai grwpiau mawr gysylltu â'r ganolfan ymlaen llaw). Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'ch ymweliad.

### **Helpwch ni i warchod y safle!**

Gwnewch yn siŵr fod y disgyblion yn gwybod i beidio â chasglu blodau gwyllt. Ni ddylai unrhyw beth gael ei gludo o'r safle (e.e. ffosilau). Ni ddylid tarfu ar y twffa sydd wedi ffurfio ar y safle na sefyll arno.

<b>Perygl</b>	<b>Lefel y risg</b>	<b>Rhagofalon i'w rhoi ar waith i leihau lefel y risg</b>
Cerdded mewn ardal ddiarffordd/plant ar goll	Isel	Cynghorir athrawon i ymweld â'r safle ymlaen llaw er mwyn dod yn gyfarwydd â'r safle a'r dirwedd. Dylai athrawon ddefnyddio'r 'system bydi' er mwyn sicrhau bod disgyblion bob amser yn ymwybodol o'r rhai sydd o'u cwmpas. Sicrhewch fod yna oedolyn ar flaen y grŵp ac un arall yn y cefn. Cyfrwch y disgyblion yn rheolaidd a sicrhewch eu bod yn gwybod beth i'w wneud os ydyn nhw'n mynd ar goll.
Tywydd anffafriol	Isel	Os bydd tywydd anffafriol (yn cynnwys gwyntoedd cryfion) yn golygu bod ymweld â'r safle yn beth anniogel i'w wneud, dylid gohirio neu ganslo'r ymweliad. Dylai ymwelwyr wisgo dillad addas ac esgidiau cadarn ar y safle. Dylen nhw hefyd ddod â dillad addas gyda nhw ar gyfer pob math o dywydd. Dylid rhoi eli haul mewn tywydd poeth.
Rhew/iâ, dŵr a mwd ar llwybrau neu lethrau	Canolig	Gall rhew/iâ, dŵr a mwd fod ar y safle. Dylai athrawon sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o hyn a dylid osgoi mannau gwlyb ar y safle. Dylai ymwelwyr wisgo esgidiau addas, cadarn ac aros ar y llwybrau agored.

Sbwriel, metel, gwydr, ac ati	Canolig	Mae'n bosibl y bydd gwydr wedi torri, darnau o fetel a sbwriel ar y safle. Dylai disgyblion ac athrawon fod yn ymwybodol o hyn ac osgoi'r rhannau o'r safle sydd â llawer o sbwriel.
Plant yn dringo ar waith maen agored	Isel	Dylai athrawon gynghori'r disgyblion ynglŷn â natur ansefydlog rhai o'r odynau hŷn a mwy bregus. Dylid osgoi dringo ar yr adeiladweithiau hyn ar bob cyfrif. Mae hyn yn wir hefyd am unrhyw bentyrrau o gerrig sy'n gysylltiedig â'r chwarel. Dylid dweud wrth blant sy'n cael eu dal yn dringo ar yr adeiladweithiau hyn am beidio â gwneud ac i ddringo i lawr (os ydy hi'n ddiogel iddyn nhw wneud hynny) ar unwaith.

<b>Perygl</b>	<b>Lefel y risg</b>	<b>Rhagofalon i'w rhoi ar waith i leihau lefel y risg</b>
Ceir yn gyrru i mewn i'r ardal ymweld ac o'i hamgylch	Isel	Dylai athrawon gynghori disgyblion i fod yn ymwybodol o bresenoldeb ceir ac i ymddwyn yn ofalus.
Adeiladweithiau ansefydlog, clogwyni, chwareli ac olion cloddio	Canolig	Rhaid cymryd gofal mawr yn ymyl adeiladweithiau ansefydlog, clogwyni, chwareli ac olion cloddio lle mae yna berygl o wrthrychau'n disgyn neu o rywun yn disgyn i mewn i dwll.  Dylai athrawon arwain disgyblion o fewn pellter diogel i'r nodweddion hyn a'u rhybuddio am y risgiau a'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r manau hyn.  Rhaid cynnal asesiad risg llawn lle mae yna bosibilrwydd o risg uchel o'r peryglon hyn.
Da byw	Isel	Gall defaid a cheffylau fod yn yr ardal. Dylai athrawon annog disgyblion i beidio â tharfu ar y defaid na bwydo ceffylau mynydd.
Cwympo o fannau uchel	Isel	Dylid cynghori disgyblion i gadw draw oddi wrth ymylon clogwyni a manau peryglus eraill.
Glanweithdra/hydradiad	Isel	Does dim toiledau ar y safle. Dylech ddod â phethau golchi dwylo sylfaenol gyda chi ar gyfer pawb.

Croen yn cosi	Isel	Dylid sicrhau bod disgyblion yn gwybod bod calch brwd yn gallu achosi i'r croen gosi. Ddylen nhw ddim cyffwrdd ag unrhyw olion calch brwd y tu mewn i'r odynau.
Peryglon canfyddadwy eraill	Isel	<p>Dylai o leiaf un o'r staff goruchwylio fod â chymhwyster cymorth cyntaf a dylai blwch cymorth cyntaf fod yn ei feddiant/meddiant ar yr ymweliad.</p> <p>Dylai athrawon fod â ffôn symudol yn eu meddiant hefyd a dylen nhw fod yn ymwybodol o rifau argyfwng.</p> <p>Byddwch yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fydd defnyddwyr cadeiriau olwyn neu bobl lai anabl yn gallu mynd ar y safle. Dylai athrawon hefyd wirio bod gan ddiodefwrwr asthma y feddyginiaeth gywir yn eu meddiant gan fod yna rai manau serth ar y llwybr.</p>